Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu ar gyfer Gofal Iechyd Annibynnol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## The SKN Studio

**Dyddiad yr arolygiad:** 21 Mai 2026

**Dyddiad cyhoeddi:** 21 Awst 2026

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau amgen gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:


**Yn ysgrifenedig:**

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

**Neu:**

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


**ISBN Digidol 978-1-80853-219-1**

**© Hawlfraint y Goron 2026**



# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

## Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

## Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

## Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

**Rydym yn:**

**Annibynnol** – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

**Gwrthrychol** – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

**Pendant** – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

**Cynhwysol** – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

**Cymesur** – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

## Ein Blaenoriaethau

**Rhoi Pobl yn Gyntaf** – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

**Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd** – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

**Buddsoddi yn Ein Pobl** – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

**Cymryd Camau sydd o Bwys** – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................ 5

2. Crynodeb o'r arolygiad ..................................................................... 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym .................................................................. 8

    Ansawdd Profiad y Claf ...................................................................8

    Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol .......................................................11

    Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth..................................................14

4. Y camau nesaf ........................................................................... 15

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad ................ 16

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ................................................... 17

Atodiad C – Cynllun gwella ............................................................. 18

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o The SKN Studio ar 21 Mai 2026.

Cynhaliwyd yr arolygiad gan un o arolygwyr gofal iechyd AGIC.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o chwe holiadur. Gwnaethom hefyd siarad â'r staff a oedd yn gweithio yn y gwasanaeth yn ystod ein harolygiad. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gawsom yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd Profiad y Claf

### Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod cleifion yn cael lefel dda o ofal yn The SKN Studio. Dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn y lleoliad yn rhoi gwybodaeth glir a chryno iddynt cyn, yn ystod ac ar ôl triniaeth. Dywedodd y cleifion hefyd eu bod yn cael eu trin mewn ffordd urddasol a pharchus drwy gydol eu taith fel cleifion. Roedd trefniadau cadarn ar waith i gefnogi preifatrwydd ac urddas y cleifion yn llawn, gan roi sylw dyledus i'w cydraddoldeb a'u hawliau. Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth gan gleifion yn foddhaol ac roedd y trefniadau ar gyfer cynllunio gofal yn cael eu rheoli'n dda yn y lleoliad.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr holl adborth a gawsom gan gleifion yn gadarnhaol
- Roedd hanesion meddygol a newidiadau i amgylchiadau yn cael eu trafod cyn i gleifion gael unrhyw driniaeth.

## Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

### Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod trefniadau cadarn ar waith i reoli'r risg o niwed i'r cleifion a darparu gofal mewn ffordd ddiogel ac effeithiol. Roedd y gweithdrefnau ar gyfer atal a rheoli heintiau yn cael eu rheoli'n briodol a dywedodd y cleifion wrthym fod y staff yn defnyddio Cyfarpar Diogelu Personol a bod y lleoliad yn 'lân iawn'. Gwnaethom ganfod meysydd i'w gwella o ran cofnodi rhai meysydd diogelwch tân yn ffurfiol ac adolygu triniaethau gan gymheiriaid fel rhan o weithgarwch gwella ansawdd y lleoliad. Cafodd y materion hyn eu datrys gan y lleoliad ar unwaith yn dilyn yr arolygiad. Roedd gan y lleoliad gydberthynas effeithiol â'i Gynghorydd Diogelu rhag Laserau, a oedd o fudd i gleifion a'r staff. Gwelsom fod cofnodion y cleifion yn cael eu cwblhau'n gywir a'u storio mewn system ddigidol ddiogel.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd trefniadau diogel ar waith ar gyfer defnyddio'r cyfarpar laser
- Roedd cofnodion y cleifion yn gynhwysfawr ac yn cael eu rheoli'n briodol.

## Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

### Crynodeb cyffredinol:

Roedd y trefniadau arwain a rheoli a oedd ar waith yn foddhaol. Roedd polisïau clir a chynhwysfawr ar waith i roi arweiniad i'r staff, gan gynnwys polisi cwynion, polisi hyfforddiant a pholisi chwythu'r chwiban. Gwelwyd bod y prosesau ar gyfer gwiriadau cyflogaeth a datblygiad proffesiynol parhaus yn briodol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y lleoliad yn cael ei reoli'n dda, a oedd yn helpu i sicrhau bod cleifion yn gallu cael triniaethau diogel ac effeithiol.
- Roedd yr holl gofnodion staffio y gwnaethom edrych arnynt yn gyflawn
- Roedd y systemau a oedd ar waith i gofnodi ac ymateb i adborth a chwynion gan gleifion yn briodol.

# 3. Yr hyn a nodwyd gennym

## Ansawdd Profiad y Claf

### Adborth gan gleifion

Ar y cyfan, roedd ymatebion a sylwadau'r cleifion yn gadarnhaol, a dywedodd pob ymatebydd fod y gwasanaeth yn 'dda iawn'. Ymhlith rhai o'r sylwadau a gawsom roedd y canlynol:

> "*Lleoliad hyfryd, hamddenol a gofalgar. Hapus iawn.*"

> "*Cefais fy nghroesawu ac roeddwn yn teimlo'n gyfforddus iawn, mae [aelod o staff] yn wych yn yr hyn mae'n ei wneud a wir yn angerddol am bob cam o'r broses drin.*"

"*Roeddwn yn teimlo'n gyfforddus, mae'n lle braf. Roedd fy sesiynau'n drylwyr iawn.*"

### Urddas a pharch

Dywedwyd wrthym fod ymgyngoriadau a thriniaethau yn cael eu cynnal mewn ystafell ddynodedig yn y lleoliad. Gwelsom fod gan yr ystafell hon ddrws solet, a oedd yn cael ei gloi yn ystod triniaethau, ac roedd y bleinds ar ffenestri'r ystafell hon ar gau. Dim ond un claf oedd yn yr adeilad yn y lleoliad hwn ar unrhyw adeg fel na ellid clywed gwybodaeth gyfrinachol. Yn ogystal, roedd cleifion yn cael eu gadael i ddadwisgo mewn ystafell newid ac yn cael tywelion urddas. Roedd pob un o'r mesurau hyn yn helpu i sicrhau bod preifatrwydd y cleifion yn cael ei gynnal yn ystod eu taith fel claf.

Gellid caniatáu i hebryngwyr ddod i'r ystafell drin, pe gofynnwyd am hynny. Roedd pâr ychwanegol o sbectolau amddiffynnol ar gael er mwyn sicrhau eu bod yn ddiogel.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC wrthym eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch, bod mesurau wedi'u rhoi ar waith i ddiogelu eu preifatrwydd a bod y staff wedi esbonio'r hyn roeddent yn ei wneud yn ystod eu triniaethau.

### Gwybodaeth i gleifion a chydsyniad cleifion

Roedd ffyrdd iach o fyw yn cael eu hyrwyddo i'r cleifion a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, gan gynnwys trafodaethau yn ystod ymgyngoriadau am ymarfer corff, bwyta'n iach a diogelwch rhag golau uwchfioled cyn ac ar ôl triniaeth. Gwelsom fod

cleifion yn cael taflenni ôl-ofal, ynghyd â dolenni i wefan y lleoliad i gael pecyn o wybodaeth am ôl-ofal ar-lein.

Nodwyd gennym fod datganiad o ddiben y lleoliad a thaflenni gwybodaeth i gleifion ar gael i gleifion yn y lleoliad ac ar y wefan.

Wrth adolygu sampl o gofnodion pum claf, gwelsom drefniadau cynhwysfawr ar gyfer casglu a chofnodi cydsyniad ar sail gwybodaeth ar bob cam o daith y claf. Roedd yr holl gofnodion triniaeth a adolygwyd gennym wedi'u cydlofnodi'n briodol gan weithredwyr. Roedd gofyn i'r cleifion hefyd gwblhau ffurflen ar-lein cyn pob sesiwn, gan gadarnhau eu bod yn deall y risgiau a'r manteision cysylltiedig â'r driniaeth ac yn cydsynio iddynt. Roedd unrhyw newidiadau i hanes meddygol yn cael eu trafod ym mhob apwyntiad ar gyfer triniaeth, ac roedd meddyginiaethau cleifion hefyd yn cael eu gwirio. Dywedodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC wrthym fod y staff wedi gwirio eu hanes meddygol a chyfleu'r costau iddynt yn glir cyn iddynt gael triniaeth. Dywedodd y cleifion eu bod yn llofnodi ffurflen gydsynio cyn pob triniaeth, eu bod yn cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent am gael eu cynnwys a bod y staff yn gwrando arnynt ac yn ateb eu cwestiynau.

Roedd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur yn cytuno eu bod wedi cael digon o wybodaeth am eu triniaeth, gan gynnwys gwybodaeth am y risgiau a'r manteision.

## Cyfathrebu'n effeithiol a chynllunio a darparu gofal

Gwelsom fod gwybodaeth yn y lleoliad ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg lle y bo'n bosibl. Gwelsom hefyd fod gwefan y practis ar gael yn ddwyieithog. Dywedodd y staff wrthym y byddai cleifion yn cael cymorth gan ddehonglydd os na fyddent yn gallu cyfathrebu yn Saesneg â gweithredwr, ac y byddai adnoddau cyfieithu ar-lein yn cael eu defnyddio hefyd. Cadarnhaodd pawb a ymatebodd i holiadur cleifion AGIC mai Saesneg oedd eu dewis iaith.

Gwelsom fod cleifion yn gyffredinol yn trefnu apwyntiadau ar-lein neu drwy e-bost; er nad oedd llawer o gleifion yn trefnu apwyntiad dros y ffôn, roedd yr opsiwn hwn ar gael iddynt.

Gwelsom fod profion croen yn cael eu cynnal cyn dechrau unrhyw gwrs o driniaeth. Dywedodd pob claf a ymatebodd i holiadur AGIC ei fod wedi cael prawf croen cyn cael triniaeth. Cadarnhaodd cleifion hefyd eu bod wedi cael cyfarwyddiadau ôl-ofal clir a'u bod yn gwybod â phwy y dylid cysylltu mewn argyfwng.

## Cydraddoldeb, amrywiaeth a hawliau dynol

Roedd polisi cydraddoldeb ac amrywiaeth ar waith yn y lleoliad, ynghyd â ffyrdd addas o amddiffyn y staff a'r cleifion rhag gwahaniaethu. Amlinellodd y rheolwr cofrestredig enghreifftiau boddhaol o'r ffordd yr oedd y lleoliad yn trin cleifion yn gyfartal ac yn cynnal eu hawliau. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno ffurflenni pwrpasol ar ôl cael adborth gan gleifion trawsryweddol. Roedd cleifion yn gallu dewis y rhagenwau, y teitlau a'r enwau a ffefrir ganddynt ar eu cofnodion.

## Ymgysylltu â dinasyddion a'u hadborth

Gwelsom fod systemau cadarn ar waith i ofyn am adborth gan gleifion ac ymateb iddo. Roedd y lleoliad yn cysylltu'n awtomatig â chleifion ar ôl eu hapwyntiad i ofyn am adborth ar-lein, ac roedd hefyd yn casglu ac yn cofnodi adborth ar lafar. Roedd pob darn o adborth gan gleifion yn cael ei adolygu gan y staff yn syth, ac roedd trosolwg yn cael ei gynnal bob blwyddyn er mwyn nodi tueddiadau neu themâu allweddol. Roedd adborth gan gleifion yn cael ei gyhoeddi ar-lein er mwyn codi ymwybyddiaeth gyffredinol. Cawsom wybod y byddai'r gwasanaeth yn ymateb i unrhyw adborth mewn perthynas â gwella'r gwasanaeth ar-lein er mwyn sicrhau bod cleifion yn ymwybodol ohono.

# Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

## Yr Amgylchedd, Rheoli risg ac iechyd a diogelwch

Gwelsom fod amgylchedd diogel yn y lleoliad. Roedd gan y lleoliad lefelau priodol o ddiogelwch i atal mynediad heb awdurdod i'r ystafell laser. Mae larymau wedi'u gosod yn y lleoliad ac roedd yr ystafell laser yn cael ei chloi pan nad oedd yn cael ei defnyddio, ac roedd yr allweddi ar gyfer y peiriannau yn cael eu storio'n ddiogel.

Roedd yn ymddangos bod pob rhan o'r lleoliad yn cael ei chynnal a'i chadw i safon dda ar gyfer y staff a'r cleifion. Gwnaethom adolygu ardystiad addas ar gyfer Profion Offer Cludadwy blynyddol, ynghyd ag asesiadau risg ysgrifenedig ar gyfer diogelwch tân ac iechyd a diogelwch.

Roedd arwyddion diogelwch yn cael eu harddangos, gan gynnwys cyfarwyddiadau i'w dilyn pe bai tân ac arwyddion dim smygu. Roedd diffoddwr tân ar gael ac o fewn ei ddyddiad gwasanaethu. Fodd bynnag, ni welsom dystiolaeth bod ymarferion tân a phrofion larwm tân yn cael eu cofnodi. Mae ymarferion tân yn ofyniad blynyddol ac wedi'u dylunio i sicrhau bod staff yn ymwybodol o'r llwybrau dianc a'u cyfrifoldebau mewn achos o dân. Dylid cynnal profion larwm tân bob wythnos a dylid eu cynllunio fel bod systemau larwm yn barod i'w defnyddio pe bai tân. Mae peidio â chynnal ymarferion na phrofi larymau yn cynyddu'r tebygolrwydd o anaf pe bai tân, ac nid yw'r systemau wedi cael eu profi ac nid yw ymarferion wedi'u cwblhau. Roedd yn gadarnhaol nodi bod staff y lleoliad wedi cymryd camau ar unwaith i ychwanegu profion larwm tân at eu rhestr wirio wythnosol i gofnodi, ac roedd y lleoliad wedi cynllunio cyfres o ymarferion gwagio'r adeilad mewn tân.

Dangosodd y staff y gwnaethom siarad â nhw ddealltwriaeth dda o'r hyn y dylid ei wneud mewn argyfwng. Roedd pecyn cymorth cyntaf y lleoliad yn addas at y diben ac roedd yr holl eitemau ynddo yn gyfredol. Roedd y lleoliad yn cael ei redeg gan y rheolwr cofrestredig ac un gweithredwr arall. Roedd y ddau ohonynt wedi cwblhau cymwysterau cymorth cyntaf brys yn y gwaith o fewn y 12 mis diwethaf.

## Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Gwelsom fod prosesau priodol ar waith i lanhau a dihalogi'r ardaloedd trin a'r cyfarpar amldro yn effeithiol. Roedd rhestrau gwirio yn cael eu defnyddio ar gyfer gwaith glanhau ac roedd y rheolwyr yn cwblhau archwiliadau fel mater o drefn. Gwelsom fod cyfarpar diogelu personol addas yn cael ei ddarparu i'r staff a'i ddefnyddio yn ystod triniaethau. Dywedwyd wrthym fod y staff yn golchi eu dwylo, yn diheintio cyfarpar ac yn sychu gwelyau cyn ac ar ôl triniaethau fel mater o drefn. Roedd y prosesau atal a rheoli heintiau a dihalogi wedi'u nodi'n addas ym mholisi rheoli heintiau'r lleoliad. Roedd gwastraff clinigol yn cael ei drin yn gywir a'i waredu drwy gontract trin gwastraff.

Dywedodd pawb a ymatebodd i holiadur AGIC fod mesurau atal a rheoli heintiau bob amser yn cael eu dilyn a bod y lleoliad yn 'lân iawn'.

## Diogelu plant a diogelu oedolion agored i niwed

Roedd gan y lleoliad bolisi diogelu addas ar waith, a oedd yn gyfredol

ac yn cynnwys manylion tîm diogelu yr awdurdod lleol. Roedd y polisi

yn amlinellu'n glir y gweithdrefnau i'w dilyn pe bai pryder am ddiogelu a'r ffordd o gofnodi'r digwyddiad yn gynhwysfawr. Gwnaethom gadarnhau nad oedd caniatâd i unrhyw un dan 18 fod ar y safle, a gwelsom fod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelu hyd at lefel addas.

## Dyfeisiau, cyfarpar a systemau diagnostig meddygol

Gwelsom fod y dyfeisiau yn y lleoliad yn cael eu defnyddio'n ddiogel ac yn unol â chanllawiau'r gwneuthurwr. Roedd contract addas ar waith gyda Chynghorydd Diogelu rhag Laserau, a gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod y Cynghorydd yn adolygu'r rheolau lleol a'r asesiad risg laser bob blwyddyn. Roedd y rheolau lleol ar gyfer y lleoliad yn gyfredol ac yn cynnwys yr holl wybodaeth ofynnol yn ymwneud â phob peiriant. Roedd yr holl staff wedi llofnodi i gytuno i'r rheolau lleol ac roedd yr asesiad risg laser yn cynnwys yr holl wybodaeth berthnasol i hyrwyddo diogelwch yr ymarferwyr a'r cleifion.

Wrth edrych ar y ddogfennaeth ar gyfer dau o'r peiriannau laser, gwelsom fod protocolau triniaeth unigol ar waith ar gyfer defnyddio'r peiriannau laser ac roedd y protocolau hyn wedi cael eu creu a'u cymeradwyo gan ymarferydd meddygol. Roedd y cofnodion ar gyfer gwasanaethu'r ddau beiriant laser a chwblhau gwiriadau calibradu dyddiol ar eu cyfer yn foddhaol. Roedd prosesau calibradu hefyd yn cael eu cwblhau cyn pob triniaeth.

## Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Gwelsom fod triniaethau yn cael eu rhoi yn ddiogel ac yn effeithiol yn y lleoliad. Roedd pob gweithredwr laser wedi cael hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant craidd gwybodaeth.

Roedd modd cloi'r ystafell laser ac roedd arwyddion diogelwch priodol yn cael eu harddangos. Roedd sbectolau amddiffynnol ar gael yn hawdd, roeddent mewn cyflwr da yn ôl pob golwg ac yn bodloni'r rheolau lleol.

Gwelsom dystiolaeth yn y sampl o gofnodion pum claf y gwnaethom edrych arnynt fod pob claf wedi cael prawf croen a bod cydnawsedd ei groen wedi cael ei brofi cyn iddo ddechrau ar ei driniaethau. Cadarnhaodd pob un o'r cleifion a ymatebodd i holiadur AGIC nad oeddent wedi cael unrhyw adwaith niweidiol ar ôl cael triniaeth.

## Cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd

Roedd adborth gan gleifion yn cael ei adolygu a'i drafod yn rheolaidd yn y lleoliad i lywio gwelliant parhaus. Roedd archwiliadau glanhau a hylendid yn cael eu cynnal ym mhob rhan o'r lleoliad, ochr yn ochr ag archwiliadau o gofnodion cleifion. Er y dywedwyd wrthym fod adolygiadau anffurfiol o gofnodion yn cael eu cynnal gan gymheiriaid, ni welsom unrhyw brosesau ffurfiol ar waith i gofnodi hyn yn ystod yr arolygiad. Roedd yn gadarnhaol nodi bod y lleoliad wedi rhoi prosesau ar waith yn syth ar ôl yr arolygiad i ddatrys hyn. Cadarnhaodd y rheolwr cofrestredig y gallai'r lleoliad ddarparu datganiad blynyddol i AGIC ar gais.

## Rheoli cofnodion

Gwelsom dystiolaeth o brosesau cadw cofnodion da yn y sampl o bum cofnod a welsom. Roedd yr holl gofnodion y gwnaethom edrych arnynt yn gyflawn ac yn gynhwysfawr. Roedd y cofnodion i gyd yn ddigidol ac yn cael eu storio'n ddiogel yn unol â'r rheoliadau diogelu data. Gwelsom fod mesurau priodol ar waith i waredu cofnodion yn ddiogel.

# Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

## Fframwaith llywodraethu ac atebolrwydd

Roedd llinellau cyfrifoldeb yn y lleoliad yn glir, ac roedd y ddau aelod o staff yn deall eu cyfrifoldebau. Gwelsom fod y lleoliad yn cael ei reoli'n dda, a oedd yn helpu i sicrhau bod y cleifion yn gallu cael triniaethau diogel ac effeithiol.

Gwelsom fod yr holl bolisïau a gweithdrefnau ar gyfer y lleoliad yn glir ac yn gynhwysfawr, gan gynnwys system rheoli fersiynau ac adolygiadau blynyddol. Roedd y ddau weithredwr awdurdodedig yn cytuno ar unrhyw newidiadau ac yn eu llofnodi. Roedd yswiriant atebolrwydd cyhoeddus, atebolrwydd meddygol a thystysgrifau cofrestru AGIC wedi'u harddangos yn briodol yn yr ystafell laser.

## Delio â phryderon a rheoli digwyddiadau

Roedd y weithdrefn gwyno a welsom yn gyfredol ac yn cyfeirio at AGIC fel ffordd o fynegi pryderon. Gwelsom fod gwybodaeth am y broses gwyno wedi'i chynnwys yn y canllaw gwybodaeth i gleifion a'r datganiad o ddiben. Roedd cwynion yn cael eu goruchwylio gan y rheolwr cofrestredig, ac roedd gweithredwr awdurdodedig arall y lleoliad yn rhan o'r broses ymchwilio. Gwnaethom adolygu un gŵyn yr oedd y lleoliad wedi'i chael a nodwyd gennym ei bod wedi cael ei thrin yn unol â pholisi'r lleoliad. Dywedwyd wrthym y byddai unrhyw gwynion ar lafar yn cael eu nodi yn y cofnodlyfr cwynion.

## Arferion recriwtio a chyflogi'r gweithlu

Gwelsom fod gwiriadau manylach gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar waith ar gyfer y ddau gyflogai, ynghyd â gweithdrefn foddhaol ar gyfer cynnal gwiriadau cyn cyflogi.

## Cynllunio'r gweithlu, hyfforddiant a datblygiad sefydliadol

Roedd y lleoliad yn fusnes teuluol gyda dau aelod o staff. Gwelsom fod systemau priodol ar waith ar gyfer cynefino staff newydd, goruchwylio'r staff yn barhaus a monitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant. Roedd y ddau aelod o staff wedi cael yr hyfforddiant angenrheidiol ar gyfer eu rolau ac roedd y ddau gyflogai yn mynychu gweithgareddau datblygu rheolaidd. Gwelsom fod gan y lleoliad bolisi chwythu'r chwiban priodol a oedd yn cynnwys manylion cyswllt AGIC.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi’n glir sut yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i’r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi’u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a’r cyhoedd yr ymdrinnir â’r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o’r sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: The SKN Studio

## Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

| | |
|---|---|
| **Canfyddiadau** | Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn. |

# Atodiad C – Cynllun gwella

## Gwasanaeth: The SKN Studio

## Dyddiad yr arolygiad: 21 Mai 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| | Risg/canfyddiad/mater | Yr hyn sydd angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **1.** | Nid oedd angen gwneud unrhyw welliannau fel rhan o'r arolygiad hwn. | | | | | |